| | |
|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | Canolfannau Cymunedol - Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **Arweinydd polisi yn nhîm y Tasglu** | Laurie Haywood |
| **Cam gweithredu – fel y nodwyd yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol"** | PS4 - Defnyddio hybiau cymunedol cyfredol – a chreu rhai newydd - lle gall y GIG, y gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a chanolfannau gwaith gydweithio â'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau lleol. Byddwn ni'n cydweithio â chymunedau lleol a chynghorau lleol i ddatblygu'r rhain a phenderfynu lle dylid eu lleoli. |

| Cerrig milltir | Cynnydd |
|---|---|
| **Rhagfyr 2017** – Hybiau presennol wedi'u mapio yn erbyn gwasanaethau ym mhob ardal awdurdod lleol a chyfleoedd ar gyfer gwelliannau wedi'u nodi. | Cyfleoedd i gefnogi canolfannau cymunedol wedi'u mapio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau dull gweithredu mwy strategol ar gyfer datblygu'r canolfannau hyn. Mae'r cymorth a nodwyd yn cynnwys:<br>• Cyllid ar gyfer cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal. Creu sianel sy'n cynnwys 19 o brosiectau ar draws Cymru erbyn 2021 - a 4 o'r prosiectau hyn yn ardal y Tasglu.<br>• Cydweithio rhwng yr Is-adran Gymunedau a chymunedau i ddiogelu cyfleusterau lleol sy'n dwyn pobl ynghyd.<br>• Defnyddio cynllun grant cyfalaf y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned ac yn cael eu defnyddio'n aml ganddynt.<br>• Model newydd o Ganolfannau Dysgu Cymunedol sy'n darparu gwasanaethau estynedig â gofal plant, cymorth i rieni, sesiynau dysgu fel teulu a chyfleusterau cymunedol ar adegau sy'n gyfleus i blant ysgol.<br>• Ysgolion yn ymgymryd â rôl ehangach fel canolfannau cymunedol.<br><br>Anfonwyd cais at awdurdodau lleol yn ardal y Tasglu ym mis Rhagfyr 2017 yn gofyn am wybodaeth ar ba ganolfannau cymunedol sydd eisoes yn bodoli, pa wasanaethau sy'n gysylltiedig â nhw ac oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Ychydig iawn o ymateb a gafwyd er bod Andrew Morgan, arweinydd y ffrwd waith, wedi anfon e-bost dilynol. |
| **Ionawr 2018** – Rhwydwaith hybiau cymunedol wedi'i sefydlu i rannu arferion gorau a gwybodaeth, gan ganolbwyntio ar themâu penodol fel cyllid a chyflogadwyedd, lle bo'r angen. | Sefydlwyd grŵp Canolfannau Cymunedol mewnol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu canolfannau ar draws y Cymoedd.<br><br>Sefydlwyd grŵp rhwydweithio allanol (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Sefydliad Dysgu a Gwaith a'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau) i weithio gydag aelodau'r grŵp mewnol i nodi |

| | |
|---|---|
| | rhwystrau ac atebion ar gyfer sefydlu a chynnal canolfannau cymunedol. Mae hyn yn sail ar gyfer rhaglen o ddigwyddiadau rhwydweithio a nodir isod.<br><br>Mae gwersi'n cael eu dysgu o'r gwaith yn Rhondda Cynon Taf i greu nifer o ganolfannau cymunedol ynghyd â gwaith Grŵp Gweithredu Parthau Cymunedol Cwm Taf, y Canolfannau Llesiant Integredig Aneurin Bevan a'r canolfannau cymunedol sefydledig yng Nghaerdydd. |
| **Ebrill 2018** – Cysylltwyr cymunedol; rheolwyr busnes ysgolion; cydlynwyr ardal leol sydd â chysylltiad â'r rhwydwaith i gefnogi gwaith hybiau cymunedol. Nodi a rhannu arferion gorau. | Mae rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu'n cael ei datblygu: Bydd cynhadledd Trosglwyddo Asedau i'r Gymuned/digwyddiad rhwydweithio'n cael ei gynnal ar 17 Mai (a ohiriwyd o 26 Mawrth oherwydd eira trwm).<br>Mae'r grŵp rhwydweithio allanol yn cynllunio digwyddiad rhwydweithio ar gyfer yr wythnos gyntaf ym mis Gorffennaf a fydd yn tynnu sylw at rai o'r arferion da sydd ar waith yng Nghymru, ac yn tynnu ar ddull gweithredu Bromley by Bow. Caiff ei dargedu at awdurdodau lleol; y GIG; y trydydd sector; cydlynwyr cymunedol, tai ac addysg; rheolwyr busnes ysgolion; a chydlynwyr lleol. |
| **Gorffennaf 2018** – Hwyluso cysylltiadau rhwng busnesau a hybiau cymunedol er mwyn cefnogi eu datblygiad. | Cafwyd trafodaethau cychwynnol â Chanolfan Cydweithredol Cymru, a chydweithio â darparwyr eraill megis Cwmnïau Cymdeithasol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gynnal sioe deithiol yn y Cymoedd i dynnu sylw at y cymorth y maent oll yn eu cynnig i fusnesau cymdeithasol. |
| **Gorffennaf 2018** – Bylchau sgiliau wedi'u nodi a hyfforddiant a mentora wedi'u datblygu, gan gynnwys annog twf a chynaliadwyedd mentrau cymdeithasol. | |
| **Rhagfyr 2018** – Gweithio gydag awdurdodau lleol a chymunedau i lenwi bylchau a nodwyd, wedi'u llywio gan arferion gorau. | |

| **Risgiau** |
|---|
| Mae llawer o waith da'n cael ei wneud eisoes yn ardal y Tasglu. Mae angen i'r Tasglu gefnogi hyn drwy gynnig cymorth a rôl hwyluso.<br><br>Ychydig iawn o ymateb a gafwyd i'r cais am wybodaeth gan awdurdodau lleol , sy'n golygu nad oes gennym yr wybodaeth ddiweddaraf am yr holl wasanaethau sydd eisoes yn cael eu cynnig ar draws ardal y Tasglu. |

| | |
|---|---|
| **Adroddwyd gan:** | Maureen Howell – 18 Mehefin 2018 |